

GARDD GOFFA CANOLFAN YR HOLOCOST



Sefydlwyd Canolfan yr Holocaust yn 1995 gan y teulu Smith yn ei ffermdy yn swydd Nottingham wledig. Mae'r Ganolfan yn cynnwys sgysiau gan oroeswyr, sesiynau addysg a dwy arddangosfa barhaol, sydd yng nghanol dros erw o erddi coffa sydd wedi'i dirlunio'n hardd.



'Roedd y rhai ohonom oedd yn bresennol yn agoriad Canolfan Beth Shalom yn llawn edmygedd y gallai canolfan o'r fath gael ei sefydlu yn Fforest Sherwood o bob man, a hynny oherwydd un teulu'n unig, teulu nad ydyn nhw'n Iddewon.'

Ben Helfgott MBE
Goroeswr yr Holocaust, Arlywydd
Anrhydeddus HMDT, Cadeirydd Cymdeithas
Cymorth '45

Magwyd Stephen a James Smith mewn teulu Cristnogol ac er pan oedden nhw'n ifanc roedd ganddyn nhw ddi-ddordeb mawr mewn diwinyddiaeth a'r berthynas rhwng Cristnogaeth ac Iddewiaeth. Yn 1991 aethon nhw ar ymweliad i Yad Vashem, cofeb yr Holocaust yn Jerusalem. Cafodd yr ymweliad effaith ddofn ar y brodyr a'u teulu.

Teimlon nhw wedi'u siomi gan nad oedd pwysigrwydd yr Holocaust a'i wersi ar gyfer dynoliaeth eu hamlinellu iddyn nhw ar unrhyw adeg yn ystod eu haddysg.

Mae Stephen yn disgrifio:

'Wrth i ni adael Yad Vashem y diwrnod hwnnw, penderfynon ni y bydden ni'n rhoi rhywfaint o'n hamser, egni a'n hadnoddau i helpu'r cyhoedd ym Mhrydain wynebu'r Holocaust a gwerthuso rhywfaint o'i ystyr ar gyfer eu bywydau.'

'Roeddem yn ymwybodol, mewn cyd-destun Ewropeidd, nad oedd llawer o fannau corfforol nac addysgol i'w hadnabod fel ymateb ystyrion i drasiedi a her yr Holocaust.'



Dros diriogaethau a feddiannwyd gan y Nazi'aid yn y gorffennol mae cannoedd o safleoedd o ddinistr gyda'u cofebau cyfansoddol. Ond roeddem yn amau eu bod yno yn absenoldeb rhywbeth, yn hytrach na thrwy fwriad, eu bod yn cael eu cynnal gan fod rhaid, yn hytrach na gan fod cymdeithas Ewropeaidd yn mynd i'r afael mor ddirifol ag y gallai â'r Holocaust.'

Roedd rhieni'r brodyr Smiths wedi prynu tŷ fferm wedi'i dirywio yn Nwyrain Canolbarth Lloegr gyda'r bwriad o greu lloches grefyddol a lleoliad ar gyfer trafodaeth rhyng-enwadol. Sylweddolodd Stephen a James y gallen nhw greu canolfan goffa ar y safle. Rhan o'r cymhelliad ar gyfer parhau â'r prosiect oedd dangos nad oedd yr Holocaust yn 'broblem Iddewig', ond yn hytrach yn wers lom i ddynoliaeth gyfan ei wynebu.

Adeiladwyd adeilad newydd i gynnwys arddangosfa a neuadd ar gyfer addysg a sgysiau gan oroeswyr. O

amgylch yr adeiladau crëwyd gardd goffa.

Mae Stephen yn disgrifio:

'Bwriad yr ardd yw gwrthgyferbynnu â'r delweddau dwys a llwm yn yr arddangosfa. Yn y tawelwch mae parch ar gyfer y gorffennol, ond gobaith ar gyfer y dyfodol hefyd. Mae 'na ardd rosod goffa lle y mae cannoedd o ymwelwyr wedi enwebu rhosod er cof am anwyliad a gollwyd yn yr Holocaust, neu wedi gwneud cyflwyniadau coffa cyffredinol.'

'Yna ceir cofeb i'r plant, lle y mae miloedd o ymwelwyr wedi gosod cerrig er cof am y plant a lofruddiwyd yn ystod yr Holocaust. Yr hyn rwy'n ei hoffi cymaint am y gofeb hon yw ei bod yn tyfu ac yn newid yn ddyddiol. A phob dydd mae gweddïau, meddyliau a dymuniadau



yn cael eu hychwanegu, rhai gan Iddewon, rhai gan Gristnogion, Mwslemiaid, Hindws, amheuwyr neu anffyddwyr. Ac mae pob carreg yno gan fod rhywun am gofio.'



I gael rhagor o wybodaeth:

- Darllenwch am [yr Holocaust](#) ar wefan HMDT
- Ewch i [wefan Canolfan yr Holocaust](#)
- Stephen Smith, *Making Memory: Creating Britain's First Holocaust Centre*, 1999